CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Craffu

Dyddiad y cyfarfod: 17 Gorffennaf 2024

Teitl: Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Cwarter 3 2023/24

Pwrpas yr adroddiad: Monitro gweithgarwch amlasiantaethol o'r camau a gymerwyd i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth hon
Sicrhau bod aelodau'n monitro cynnydd yng nghyfarfodydd rheoli chwarterol Grŵp Gweithredol Lleol ar y cyd CYSUR/CWMPAS.

Cefndir

Amgaeir Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR-CWMPAS ar gyfer Chwarter 3, 2023/24.

Mae'r rhain yn adroddiadau rheoli amlasiantaethol sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion yn ystod y cyfnod 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2023. Maent yn darparu gwybodaeth reoli ar gamau gweithredu a gymerwyd o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae'r Adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth a ddarperir gan asiantaethau eraill mewn perthynas â diogelu lles plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Trafodir y wybodaeth reoli gan aelodau o Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR-CWMPAS (Ceredigion) er mwyn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y trefniadau diogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion a'r canlyniadau a gyflawnwyd.

Mae'r cyfarfodydd amlasiantaethol hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar unrhyw faterion perfformiad a materion eraill o fewn y maes gwaith hwn.

Mae gwybodaeth am berfformiad hefyd yn cael ei darparu i Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd hefyd yn gyfle i ddadansoddi perfformiad, tueddiadau a materion ar draws y Rhanbarth.

Y sefyllfa bresennol

Crynodeb o'r pwyntiau allweddol:

- Yn Chwarter 3, roedd gostyngiad bach iawn yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd ynghylch plant/pobl ifanc o'i gymharu â Chwarter 2 - gyda 926 o gysylltiadau/adroddiadau wedi'u derbyn yn Chwarter 3 o'i gymharu â 928 o gysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 2.
- Fodd bynnag, er bod lleihad yn nifer y cysylltiadau/adroddiadau a dderbyniwyd yn Chwarter 3, roedd cynnydd mawr yn y nifer cyffredinol o cysylltiadau/adroddiadau a arweiniodd at yr angen i weithredu o dan y

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant, o 132 yn Chwarter 2 o'i gymharu â 179 yn Chwarter 3.

- O'r adroddiadau a dderbyniwyd, canran yr adroddiadau a aeth ymlaen i Drafodaeth Strategaeth yn y chwarter hwn oedd 19.3%, o'i gymharu â 14.2% yn Chwarter 2 ag 19.4% yn Chwarter 1.
- Yn Chwarter 3, aeth 9.6% ymlaen i ymholiad Adran 47 o'i gymharu â 5.9% yn Chwarter 2 ac mae hyn yn o'i gymharu ag 8.8% yn Chwarter 1.

- Roedd 1.3% yn mynd i Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant yn Chwarter 3 o'i gymharu â 0.9% yn Chwarter 2, a 0.7% yn Chwarter 1.
- Felly, yn anffodus, mae nifer yr achosion yr oedd angen gweithredu arnynt o dan y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant nôl i'r un lefel ag yr oedd yn Chwarter 1.
- Mae cyfanswm y plant sy'n destun Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant wedi cynyddu i 17 yn y chwarter hwn o'i gymharu ag 16 yn Chwarter 2 a 10 yn Chwarter 1.
- Cyfanswm y plant a roddwyd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn y chwarter hwn yn dilyn y Gynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant oedd 16 o'i gymharu â 10 yn Chwarter 2.
- Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr ar ôl Cynadleddau Adolygu Amddiffyn Plant oedd 21 yn y chwarter hwn o'i gymharu â 22 yn y chwarter diwethaf.
- Ar ddiwedd y chwarter hwn, roedd 33 o blant/pobl ifanc wedi'u cofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o'i gymharu â 40 ar ddiwedd Chwarter 2 a 52 ar ddiwedd Chwarter 1. Felly, mae gostyngiad cyson yn nifer y plant sydd ar y gofrestr.
- Roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr Heddlu a staff mewnol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, yr ysgolion oedd y ffynhonnell gyfeirio fwyaf yn ystod y chwarter a gofnodwyd hefyd gynnydd sylweddol mewn pryderon diogelu.
- Mae cyfanswm yr ymholiadau Adran 47 a gynhaliwyd wedi cynyddu yn y chwarter hwn hefyd, gyda 89 yn cael eu cynnal yn Chwarter 3 o'i gymharu â 55 a gynhaliwyd yn Chwarter 2. Cynhaliwyd 74 ar y cyd â'r Heddlu yn y chwarter hwn a chynhaliwyd 15 fel Asiantaeth Sengl Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Y prif gategori o gam-drin a arweiniodd at ymholiad Adran 47 yn Chwarter 3 oedd honiadau o gam-drin corfforol a cham-drin/cam-fanteisio rhywiol fel yn achos Chwarteri 1 a 2.
- Yr hyn sy'n dal i beri pryder yn y chwarter hwn yw'r ffaith nad oeddem yn gallu bodloni ein hamserlenni statudol o gynnal Cynhadledd Gychwynnol Amddiffyn Plant o fewn y 15 diwrnod ar ôl penderfynu ar ganlyniad Adran 47 bod angen cynhadledd gan fod y plentyn yn parhau i fod mewn perygl. Er bod gwelliant wedi bod o Chwarter 2 lle mai dim ond 43.7% oedd o fewn yr amserlen, gyda Chwarter 3 yn 58.8%, roedd materion staffio ac argaeledd gweithwyr proffesiynol o asiantaethau eraill, yn dal i effeithio ar gydymffurfiad ag amserlenni statudol, er bod hyn yn gwella. Fodd bynnag, cynhaliwyd 93.8% o'r grwpiau craidd o fewn yr amserlen.
- O ran **Diogelu Oedolion**, bu gostyngiad bach yn nifer yr oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeulustod a adroddwyd yn y chwarter hwn (180) o'i gymharu â Chwarter 2 (181).

- Cyfanswm yr adroddiadau a dderbyniwyd oedd 226 yn y chwarter hwn o'i gymharu â 228 yn Chwarter 2.
- Staff yn yr Awdurdod Lleol oedd prif ffynhonnell yr atgyfeiriadau yn y chwarter hwn fel yn y chwarter blaenorol gydag asiantaethau Darparu yn ail (briff ffynhonnell).
- Y categori cam-drin a adroddwyd amdano fwyaf yn y chwarter hwn oedd cam-drin emosiynol/seicolegol (111), esgeulustod (90) adroddiad o oedolion mewn perygl lle hwn oedd y prif gategori cam-drin; 66 yn ymwneud â cham-drin corfforol. Roedd 36 yn ymwneud â cham-drin ariannol a 7 yn ymwneud â cham-drin rhywiol. Cam-drin emosiynol/seicolegol ac esgeulustod oedd y categorïau cam-drin a adroddwyd amdanyn nhw fwyaf yn y chwarter blaenorol hefyd ond roedd esgeulustod yn fwy cyffredin yn y chwarter hwnnw.
- O'r adroddiadau a dderbyniwyd, mewn perthynas â'r holl gategorïau cam-drin, menywod oedd y dioddefwyr mwyaf amlwg o gymharu â dynion, ac eithrio cam-drin ariannol lle'r oedd nifer gyfartal o adroddiadau ar gyfer dynion a menywod mewn perthynas â hyn.
- Yn Chwarter 3, fel yn achos Chwarter 2, adroddwyd bod mwyafrif y camdriniaeth/esgeulustod wedi digwydd yng nghartrefi'r bobl eu hunain, gyda pherthynas / cyfaill yn gyfrifol am y camdriniaeth/esgeulustod a gofnodwyd. Yr uchaf ond un oedd mewn cartref gofal, gyda gweithiwr cyflogedig yn gyfrifol am y camdriniaeth/esgeulustod honedig.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam

Caiff yr adroddiad hwn ei ddarparu'n barhaus ac mae'n dangos y gwaith parhaus a wneir ar ddiogelu plant ac oedolion yng Ngheredigion.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor: Cael Cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a chynllunio hirdymor ar gyfer y dyfodol

Cydweithio: Cydweithio â phartneriaid eraill i gyrraedd y nod.

Cynnwys: Cynnwys y rhai hynny sydd â diddordeb a cheisio eu safbwyntiau; ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid

Atal: Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu

Integreiddio: Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a'r diwylliant a cheisio dod â budd i bob un ohonynt.

Argymhelliad (Argymhellion):

Nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefelau gweithgarwch â'r Awdurdod Lleol

Rhesymau dros yr argymhelliad (argymhellion):

Er mwyn monitro dull llywodraethu gweithgarwch yr Awdurdod Lleol a'i asiantaethau partner.

Enw Cyswllt: Audrey Somerton-Edwards

Swydd: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: (Plant a Theuluoedd)

Dyddiad yr Adroddiad: 10 Ebrill 2024

Acronyms:
CP – Amddiffyn Plant
CPR – Cofrestr Amddiffyn Plant
Part 4 – Honiadau a wnaed yn erbyn aelod o staff neu'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, e.e. – gofalwyr maeth, gwirfoddolwyr, cylchoedd chwarae at ati
CPCC – Cynhadleddau Achos Amddiffyn Plant
ICPC – Cynadleddau Cychwynnol Amddiffyn Plant